GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol

## Data Dogfen Dechnegol Data



# Cynnwys


Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol – Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ............ 2

Diben ........ 2

Cyflwyniad ........ 2

Cyfyngiadau'r data ........ 2

Contractau deintyddol yng Nghymru ........ 3

Y gweithlu deintyddol – Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ........ 5

Nodweddion deintyddion ........ 5

Band oedran ........ 6

Y Gymraeg ........ 6

Tarddiad ethnig gweithwyr deintyddol proffesiynol ........ 7

Trin cleifion ........ 8

Y cleifion newydd a gaiff eu trin ........ 9

Y prif batrymau gweithio ........ 10

Gwaith clinigol ac anghlinigol ........ 10

Cymhelliad unigol ........ 11

Cymharu gwledydd y Deyrnas Unedig ........ 14

Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd Practisau Deintyddol Cymru Gyfan ........ 19

Y rheini sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol) ........ 19

Nyrsys Deintyddol Cofrestredig ........ 20

Aelodau o staff anghofrestredig ........ 20

Y sesiynau a ddarperir bob wythnos ........ 21

Sesiynau deintyddion ........ 21

Sesiynau gan therapyddion ........ 21

Swyddi gwag ........ 22

Deintyddion ........ 22

Therapyddion deintyddol ........ 23

Hylenyddion deintyddol ........ 23

Nyrsys deintyddol ........ 24

Cyfeiriadau ........ 25

# Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol – Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

### Dogfen Dechnegol Data

## Diben

Diben y ddogfen dechnegol hon yw rhoi crynodeb o'r data a'r wybodaeth am y gweithlu sydd wedi'u hadolygu fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun gweithlu strategol. Mae'r ddogfen i'w darllen ochr yn ochr â'r canlynol: -

- Y Cynllun Gweithlu Deintyddol Strategol
- Adolygiad o'r llenyddiaeth a'r gwaith i fapio strategaethau
- Crynodeb o adroddiad yr ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Bydd mwyafrif y gofal deintyddol yng Nghymru yn cael ei ddarparu drwy bractisau a chontractwyr annibynnol sy'n cael eu contractio gan Fyrddau Iechyd Lleol i roi triniaeth a gofal i gleifion drwy'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol. I gyd-fynd â hyn, bydd gofal canolraddol a gofal arbenigol yn cael ei roi drwy'r Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol a gwasanaethau ysbytai. Ffactor hollbwysig i'w ystyried, ac un sy'n unigryw wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol, yw'r cyfuniad a geir o ofal deintyddol drwy'r GIG a gofal drwy ddarparwyr preifat, ac mae'n anodd meintioli natur y ddarpariaeth honno. Bydd Practisau Deintyddol Cyffredinol yn gweithredu fel Contractwyr Annibynnol o dan Gontract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol y GIG, ac yn cael eu comisiynu gan Fyrddau Iechyd Lleol. Mae modd i bractisau roi'r gorau i ddarparu gofal deintyddol drwy'r GIG a symud yn llwyr i'r sector preifat. Mae hynny'n creu heriau wrth ganfod data am y gweithlu ac wrth gynllunio yn y maes hwn.

Ar sail gwybodaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022-23, bu cynnydd yn y gweithlu o flwyddyn i flwyddyn ers Covid-19, ac ar hyn o bryd mae 1,434 o ddeintyddion sy'n gwneud gwaith i'r GIG wedi'u cofnodi yng Nghymru.  Serch hynny, mae hyn yn dal yn is na'r lefelau a welwyd cyn Covid-19. (Llywodraeth Cymru, Hydref 2022)

## Cyfyngiadau'r data

Gan mai contractwyr a phractisau annibynnol yw'r rhain, mae'n hynod o anodd cael gafael ar ddata am y gweithlu, ac nid oes un ffynhonnell bendant o ddata am y gweithlu ar gael. Dim ond crynodeb lefel uchel am feysydd neu arbenigeddau penodol a geir yn y ffynonellau gwybodaeth y gallwn ni'u defnyddio, er bod gwaith wrthi'n cael ei wneud i wella hyn.

Yn sgil y diffyg set ddata gynhwysfawr mewn gofal sylfaenol, mae ffynonellau data eraill wedi'u defnyddio yn y ddogfen hon i helpu i ddangos yr heriau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu drwy Gymru.  Mae'r rhain yn cynnwys data sydd wedi'u cyhoeddi'n genedlaethol, a/neu ddeunydd ymchwil o Gymru a'r Deyrnas Unedig, gyda data lleol yn cyd-fynd â'r rheini pan fyddan nhw ar gael.

Mae 7 o rolau yn y gweithlu deintyddol sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Y rhain yw: deintydd, nyrs ddeintyddol, therapydd deintyddol, hylenydd deintyddol, technegydd deintyddol, technegydd deintyddol clinigol, a therapydd orthodontig. Nid yw'r ddwy rôl olaf o'r rhain ar hyn o bryd yn berthnasol i'r cynllun ar gyfer y gweithlu.

Mae Tabl 1 yn rhoi rhestr o'r ffynonellau data sydd ar gael yn y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol ar gyfer pob rôl yn y gweithlu deintyddol.

### Y galw gan gleifion

Nid oes data pendant ar gael i roi gwybod faint o bobl sy'n aros i weld un o ddeintyddion y GIG ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cael trafodaethau â Iechyd a Gofal Digidol Cymru ynghylch creu rhestr aros ddeintyddol ar gyfer Cymru gyfan (Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2023), tra bo AaGIC yn cydweithio â Iechyd Cyhoeddus Deintyddol Cymru i ddatblygu fframwaith i fodelu anghenion cleifion.

**Tabl 1 - Ffynonellau data am y gweithlu yn ôl y categorïau cofrestru**

| Ffynhonnell y data | Deintyddion | Nyrsys deintyddol | Hylenyddion deintyddol | Therapyddion deintyddol | Technegwyr deintyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cofnod Staff Electronig | × | × | × | × | × |
| Adroddiad blynyddol System Sicrhau Ansawdd y GIG | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cofrestri'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG | ✓ | × | × | × | × |
| StatsCymru (Llywodraeth Cymru) | ✓ | × | × | × | × |
| System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru<br>(Yn fyw ers Chwarter 3 2023/2024) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |


# Contractau deintyddol yng Nghymru

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y contractau a'r practisau deintyddol yng Nghymru. Serch hynny, gall mwy nag un ymarferydd deintyddol wneud gwaith deintyddol i'r GIG o dan yr un contract. Mae nifer y practisau deintyddol wedi lleihau o 435 (Llywodraeth Cymru, 2020) yn 2019-2020 i 434 yn 2022-23.

**Tabl 2 Nifer y contractau deintyddol a'r practisau yn ôl byrddau iechyd lleol 2022-23**

| | Nifer y contractau deintyddol | Nifer y practisau deintyddol |
|---|---|---|
| Betsi Cadwaladr | 132 | 88 |
| Powys | 34 | 29 |
| Hywel Dda | 66 | 53 |
| Bae Abertawe | 74 | 63 |
| Aneurin Bevan | 111 | 77 |
| Caerdydd a'r Fro | 76 | 68 |
| Cwm Taf Morgannwg | 59 | 56 |
| **Cymru** | **552** | **434** |

*Ffynhonnell* (StatsCymru, 2022-23)




Ffynhonnell - (Llywodraeth Cymru, 2023)


# Y gweithlu deintyddol – Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol

Mae timau'r gweithlu deintyddol yn cynnwys deintyddion, nyrsys deintyddol, hylenyddion a therapyddion, ond nid oes gwybodaeth barod ar gael am nifer y staff sy'n gwneud rhai o'r rolau hyn.

Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf, bu cynnydd yn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol, ond mae'r gweithlu yn 5% yn llai yn 2022-23 nag oedd cyn Covid yn 2019-20. (StatsCymru, 2023)

Mae Ffigur 1 yn dangos cyfanswm nifer y deintyddion sydd wedi bod yn rhoi Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol dros y 7 mlynedd ddiwethaf. Mae feirws COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar sut y mae gwasanaethau deintyddol wedi'u darparu yng Nghymru, ac mae hyn wedi dylanwadu ar y broses o gasglu data yn 2019-20 a 2020-21, yn debygol yn sgil y gostyngiadau mawr yn lefelau'r gweithgarwch yn y ddwy flynedd honno. Mae'r data diweddaraf sydd wedi'u casglu yn dal yn is na'r cyfartaledd cyffredinol, ond maen nhw'n dangos y niferoedd uchaf ers COVID-19.


*Ffigur 1 - Nifer deintyddion y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2015/16 i 2022/23*




# Nodweddion deintyddion

Yn hanesyddol, bu'r gweithlu deintyddol yn un gwrywaidd ar y cyfan, ond bu newid yn y rhaniad rhwng y rhyweddau yn y gweithlu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hwnnw bellach yn fwy cytbwys, gyda dros 50% o ddeintyddion y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn fenywod. Mae Ffigur 2 yn dangos y rhaniad rhwng y rhyweddau yn yr un mlynedd ar ddeg ddiwethaf. Yn y cyfnod hwnnw, mae'r gweithlu gwrywaidd wedi lleihau 8%.


*Ffigur 2 – % gweithlu deintyddol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn ôl rhywedd*




# Band oedran


Mae band oedran diweddaraf y gweithlu yn dangos bod dros draean y gweithlu o dan 35 oed, tra bo bron i 13% o weithlu deintyddol y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol dros 55 oed.

*Ffigur 3 Nifer deintyddion y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol yn ôl band oedran 2022 – 2023*




Yn ôl rhywedd, ym mhob band oedran o dan 44 oed, mae canran uwch o ddeintyddion benywaidd nag o ddeintyddion gwrywaidd yn y gweithlu.

*Ffigur 4 - Band oedran deintyddion 2022-23 a % y rhaniad rhwng y rhyweddau*




# Y Gymraeg


Bydd deintyddion sydd wedi'u cofrestru ar y rhestr o gyflawnwyr yn gallu nodi eu hunain beth yw lefel eu sgiliau Cymraeg. Serch hynny, cwestiwn "Ie" neu "Na" yw hwn,

ac nid yw'n mesur lefelau rhuglder. Gan amlaf, ni fydd y wybodaeth chwaith yn cael ei diweddaru yn ystod cyfnod pobl fel deintyddion.

Mae canran y deintyddion sydd wedi'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg wedi parhau'n weddol sefydlog dros y pum mlynedd ddiwethaf, ond efallai nad yw'r wybodaeth a roddwyd yn cynrychioli nifer y deintyddion sy'n ymgynghori yn Gymraeg ar hyn o bryd neu sy'n gallu gwneud hynny. (Llywodraeth Cymru, 2023)

Nid oes data ar gael am sgiliau iaith cyfatebol rolau eraill yn y tîm (e.e. nyrsys deintyddol, hylenyddion deintyddol ac ati)

*Ffigur 5 - Canran y deintyddion a oedd wedi'u cofnodi fel siaradwyr Cymraeg 2018-19 i 2021-22*





**Ffynhonnell -** (Llywodraeth Cymru, 2023)

## Tarddiad ethnig gweithwyr deintyddol proffesiynol

Nid oes gwybodaeth ar gael am ethnigrwydd y gweithlu deintyddol yng Nghymru. Serch hynny, mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi cyhoeddi gwybodaeth am darddiad ethnig eu haelodau cofrestredig yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl y ffigurau hyn, ethnigrwydd gwyn sydd gan bron i hanner y gweithwyr deintyddol proffesiynol lle mae'r tarddiad ethnig wedi'i ddatgan. (Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, 2022)


*Ffigur 6 – Ethnigrwydd y deintyddion sy'n aelodau cofrestredig o'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol*



# Trin cleifion

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn argymell y dylai cleifion gael eu galw yn ôl i gael archwiliadau deintyddol yn rheolaidd, gyda'r bwlch yn amrywio rhwng tri mis a phedwar mis hugain, yn dibynnu ar statws iechyd ceg yr unigolyn.  Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar y wybodaeth a gaiff ei chasglu gan StatsCymru, gan fod y data mwyaf diweddar yn gorgyffwrdd â chyfnod y pandemig.

*Ffigur 7 - Canran y boblogaeth sy'n oedolion a phlant a gafodd driniaeth yn y cyfnod o 24 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth bob blwyddyn rhwng 2013 a 2023*





Ffynhonnell: (StatsCymru, 2022-23)

Roedd canran yr holl gleifion a gafodd driniaeth yn gymharol sefydlog tan ddechrau pandemig Covid-19, ac yna bu gostyngiad, sy'n ddealladwy. Er bod y triniaethau wedi cynyddu'n sylweddol yn 2023 o'u cymharu â 2022, mae canran yr holl gleifion sydd wedi'u trin 12% yn is na'r lefelau cyn Covid.

# Y cleifion newydd a gaiff eu trin

Cleifion newydd yw'r rheini a gaiff eu trin gydag Asesiad o Risgiau ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN)[1] yn y cyfnod presennol, a'r rheini heb gwblhau cwrs o driniaethau Band 1, 2 neu 3 yn y pedair blynedd cyn y dyddiad pan gawson nhw'u derbyn ar gyfer y driniaeth bresennol.

*Ffigur 8 - Cleifion deintyddol newydd y GIG fel canran o'r holl gleifion a gafodd eu trin yn 2022/23*




**Ffynhonnell -** (Llywodraeth Cymru, 2023)

Ar sail gwybodaeth a roddwyd gan Stats Cymru, cleifion newydd oedd 17% o'r holl gleifion a gafodd driniaethau yn 2022/23 (StatsCymru, 2022-23)

### Patrymau gweithio, cymhelliad a morâl deintyddion

Mae'r adroddiad sy'n trafod patrymau gweithio, cymhelliad a morâl deintyddion wedi'i ddatblygu a'i gynhyrchu gan NHS Digital (NHS Digital, 2020). Mae'r arolwg ledled y Deyrnas Unedig yn rhoi gwybodaeth am batrymau gweithio, cymhelliad a morâl deintyddion ledled y Deyrnas Unedig.

Mae'r dadansoddiad wedi'i seilio ar sampl o ddeintyddion sydd wedi cwblhau'r arolwg gwirfoddol ynghylch patrymau gweithio deintyddion, sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd. Agorodd yr arolwg ar 16 Ionawr 2020 a chau'n swyddogol ar 26 Chwefror (er y bu modd parhau i roi gwybodaeth tan 2 Mawrth 2020). Gan na chafodd y Coronafeirws sylw eang tan ail wythnos mis Mawrth (gan arwain wedyn at y cyfnodau clo), mae'n annhebygol bod y pandemig wedi effeithio ar yr atebion i'r arolwg.

Mae'r data'n deillio o setiau data a ddarparwyd gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA), NHS National Services Scotland a Northern Ireland Business Services Organisation (BSO).

Roedd yr arolwg yn categoreiddio'r deintyddion yn Ddeintyddion Cyswllt ac yn Gyflawnwyr – Darparu.

---

[1] https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html?_gl=1*3ylrw0*_ga*MTE2MDI4MjQzMi4xNzEwMzIxODcx*_ga_L1471V4N02*MTcxMDkxNTE3Ni4yLjEuMTcxMDkxNTMyMy4wLjAuMA..

### Deintydd Cyswllt

Yn ôl diffiniad yr arolwg, deintydd yw Deintydd Cyswllt sy'n cyflawni gwaith o dan gontract ond sydd heb gontract ei hun gyda bwrdd iechyd lleol (deintydd sy'n cyflawni'n unig yw'r enw arall ar hyn)


### Cyflawnydd – Darparu

Deintydd yw hwn sydd â chontract gyda'r bwrdd iechyd lleol ac sy'n cyflawni deintyddiaeth i'r GIG o dan y contract hwn neu gontract arall.

## Y prif batrymau gweithio

Ar sail yr ymatebion a ddaeth i law, dywedodd deintyddion (amser llawn a rhan amser) eu bod yn gweithio cyfartaledd o 36 awr yr wythnos, gydag ychydig llai na 27 awr yr wythnos wedi'u neilltuo i wasanaethau deintyddol y GIG, gyda gweddill y gwaith yn cael ei dreulio ar ddeintyddiaeth breifat.


*Ffigur 9 - Canran yr amser a dreulir yn trin cleifion y GIG / cleifion preifat.*




## Gwaith clinigol ac anghlinigol

Yn gyffredinol, dywedodd deintyddion eu bod nhw'n treulio 83.2 y cant o'u hamser ar waith clinigol ac 16.8 y cant o'u hamser ar waith anghlinigol. Roedd Deintyddion Cyswllt yn treulio mwy o'u hamser deintyddol ar waith clinigol na Chyflawnwyr - Darparu.

*Ffigur 10 - Canran yr amser a dreulir ar waith clinigol ac anghlinigol*




## Cymhelliad unigol

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r deintyddion am yr hyn a oedd yn eu cymell, gyda'r atebion yn amrywio rhwng "anghytuno'n gryf" a "chytuno'n gryf". At ddibenion yr adroddiad hwn, rydyn ni wedi hepgor ymatebion niwtral (nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno).

### Rydw i'n teimlo'n fodlon yn fy swydd fel deintydd

Roedd dros draean y Cyflawnwyr – Darparu (36.2%) naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r datganiad eu bod yn teimlo'n fodlon yn eu swyddi fel deintyddion, tra bo dros chwarter y Deintyddion Cyswllt (25.9%) hefyd yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r un datganiad. O holl ddatganiadau'r arolwg, dyma'r un a gafodd yr ymateb cadarnhaol uchaf ymhlith Deintyddion Cyswllt.


*Ffigur 11 - Ymatebion i'r cwestiwn am gymhelliad, Rydw i'n teimlo'n fodlon yn fy swydd fel deintydd*



## Rydw i'n cael cydnabyddiaeth am y gwaith rydw i'n ei wneud

Roedd dros 40% o Gyflawnwyr – Darparu a Deintyddion Cyswllt yn anghytuno â'r datganiad hwn, tra nad oedd chwarter y Cyflawnwyr – Darparu a ymatebodd yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad.


*Ffigur 12 - Ymatebion i'r datganiad Rydw i'n cael cydnabyddiaeth am y gwaith rydw i'n ei wneud*




## Rydw i'n teimlo bod fy nghyflog yn deg

Y datganiad hwn a gafodd y ganran uchaf o ymatebion negyddol o blith holl ddatganiadau'r arolwg. Roedd dros hanner y Cyflawnwyr – Darparu yn anghytuno â'r datganiad hwn, a bron i hanner y Deintyddion Cyswllt yn anghytuno. Dyma'r datganiad hefyd a arweiniodd at yr ymateb cadarnhaol isaf, gyda llai nag 20% o Gyflawnwyr – Darparu a mymryn dros chwarter y Deintyddion Cyswllt yn cytuno â'r datganiad hwn.


*Ffigur 13 - Ymatebion i'r datganiad Rydw i'n teimlo bod fy nghyflog yn deg*



### Mae fy swydd yn rhoi cyfle i mi wneud gwaith heriol a diddorol

Roedd dros chwarter y Cyflawnwyr – Darparu yn anghytuno â'r datganiad hwn, ond roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn cytuno, tra bo dros 50% o'r Deintyddion Cyswllt hefyd yn cytuno â'r datganiad.


*Ffigur 14 - Mae fy swydd yn rhoi cyfle i mi wneud gwaith heriol a diddorol*




### Mae cyfleoedd i mi wneud cynnydd yn fy ngyrfa

Roedd dros 40% o Gyflawnwyr – Darparu yn anghytuno a'r datganiad hwn, ynghyd â dros chwarter y Deintyddion Cyswllt.  Roedd llai na chwarter y Cyflawnwyr – Darparu yn cytuno â'r datganiad hwn.


*Ffigur 15 - Mae cyfleoedd i mi wneud cynnydd yn fy ngyrfa*



### Sut y byddech chi'n disgrifio'ch morâl fel deintydd?


Mae morâl y staff yn isel ymhlith Cyflawnwyr – Darparu a Deintyddion Cyswllt ill dau, gyda thraean o Gyflawnwyr – Darparu yn dweud bod eu morâl yn isel iawn neu'n isel, ac ychydig o dan hanner y Deintyddion Cyswllt yn dweud hynny. Dywedodd 17% o Gyflawnwyr – Darparu bod eu morâl yn uchel neu'n uchel iawn, ac felly hefyd ychydig dros chwarter y Deintyddion Cyswllt.

*Ffigur 16 - Sut y byddech chi'n disgrifio'ch morâl fel deintydd?*




### Byddaf yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol y GIG

Roedd bron i dri chwarter y Cyflawnwyr – Darparu a dros hanner y Deintyddion Cyswllt a ymatebodd naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno eu bod yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol.




## Cymharu gwledydd y Deyrnas Unedig

Er bod gwahaniaethau rhwng y diffiniadau o gategorïau'r deintyddion, mae NHS Digital wedi creu matrics i gymharu cenhedloedd y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, byddai'n rhaid ystyried trefniadau'r contractau ym mhob gwlad wrth gymharu'r gwledydd.


I hwyluso pethau wrth ddisgrifio, mae deintyddion sy'n Gyflawnwyr – Darparu yng Nghymru a Lloegr yn cael eu galw yn Brif Ddeintyddion, i gyfateb i'r disgrifiadau yn yr

Alban ac Iwerddon, tra bo unrhyw ymatebion niwtral (h.y. ddim yn cytuno nac yn anghytuno) wedi'u hepgor.

### Prif Ddeintydd (Cyflawnydd – Darparu)

Gan Ogledd Iwerddon y mae'r ymateb isaf ar gyfer y datganiad "Rydw i'n teimlo bod fy nghyflog yn deg" ac roedd llai nag 20% ym mhob gwlad yn cytuno â'r datganiad hwnnw.  Ar y cyd, gan Gymru oedd yr ymatebion isaf wrth edrych ar yr holl gwestiynau, gyda chyfartaledd o 36% yn cytuno.


*Ffigur 17 - Canran y Prif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) a ddywedodd eu bod yn "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno", yn ôl pob datganiad.*




### Sut y byddech chi'n disgrifio'ch morâl fel deintydd?

Drwy'r Deyrnas Unedig, dywedodd dros 60% o ymatebwyr bod eu morâl yn isel neu'n isel iawn.  Gan Gymru oedd y morâl isaf o blith y pedair cenedl ymysg Prif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu), gyda dau draean yn dweud bod eu morâl yn isel iawn neu'n isel.  Er mai gan yr Alban yr oedd y ganran uchaf o ddeintyddion a ddywedodd bod eu morâl yn uchel iawn neu'n uchel, llai na chwarter yr ymatebwyr a ddywedodd hyn.


*Ffigur 18 - Prif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) Sut y byddech chi'n disgrifio'ch morâl fel deintydd?*




### Byddaf yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol y GIG

Dywedodd dros ddau-draean o'r holl Brif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) a ymatebodd o bob rhan o'r Deyrnas Unedig eu bod yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol, tra cytunai bron i dri chwarter o ymatebwyr Cymru â'r datganiad.


*Ffigur 19 - Prif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) Byddaf yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol y GIG*




## Deintyddion Cyswllt

Mae’r patrwm ymhlith Deintyddion Cyswllt yn debyg. Y datganiad “Rydw i’n teimlo bod fy nghyflog yn deg” a gafodd y sgôr isaf ym mhob gwlad, gan gynnwys y ganran isaf o’r holl ymatebion a roddwyd.

*Ffigur 20 - Canran y Deintyddion Cyswllt a ddywedodd eu bod yn “cytuno’n gryf” neu’n “cytuno”, yn ôl pob datganiad*





Y datganiad “Mae fy swydd yn rhoi’r cyfle i mi wneud gwaith heriol a diddorol” a gafodd y sgôr cyfartalog uchaf ymhlith Prif Ddeintyddion a Deintyddion Cyswllt ill dau.

Gan Ogledd Iwerddon yr oedd y ganran isaf o Ddeintyddion Cyswllt a gytunai, tra mai gan yr Alban oedd y canrannau uchaf ymhlith Deintyddion Cyswllt a Phrif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) ill dau.

### Sut y byddech chi’n disgrifio’ch morâl fel deintydd?

Ar gyfartaledd, roedd morâl ychydig o dan 50% o’r Deintyddion Cyswllt yn y Deyrnas Unedig a ymatebodd yn isel neu’n isel iawn. Yng Ngogledd Iwerddon yr oedd y morâl isaf, gyda dros hanner y Deintyddion Cyswllt yn dweud bod eu morâl yn isel neu’n isel iawn.

*Ffigur 21 - Deintyddion Cyswllt  Sut y byddech chi’n disgrifio’ch morâl fel deintydd?*





Ar y cyd, gan yr Alban y mae’r gyfradd uchaf o Brif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) a Deintyddion Cyswllt sy’n dweud bod eu morâl yn uchel neu’n uchel iawn, ond dim ond ymhlith mymryn dros chwarter y rhai a ymatebodd y mae hyn (26%).  Ar gyfartaledd, mae’r morâl ar ei isaf yng Ngogledd Iwerddon, gyda 60% o Brif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) a Deintyddion Cyswllt yn dweud bod eu morâl yn isel neu’n isel iawn.

### Byddaf yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol y GIG

Roedd dros hanner y Deintyddion Cyswllt ym mhob cenedl yn cytuno eu bod yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol. Yng Ngogledd Iwerddon yr oedd y nifer uchaf o ymatebwyr yn cytuno â’r datganiad hwn, sef dros 62%.

*Ffigur 22 - Byddaf yn aml yn meddwl am adael ymarfer deintyddol cyffredinol y GIG*




Ar y cyd, gan yr Alban y mae'r nifer lleiaf o Brif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) a Deintyddion Cyswllt sy'n dweud eu bod yn ystyried gadael ymarfer deintyddol cyffredinol, ond dim ond mymryn dros hanner yr ymatebwyr sy'n dweud hyn.  Ar gyfartaledd, mae'r morâl ar ei isaf yng Ngogledd Iwerddon, gyda 60% o Brif Ddeintyddion (Cyflawnwyr – Darparu) a Deintyddion Cyswllt yn dweud bod eu morâl yn isel neu'n isel iawn.

# Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd Practisau Deintyddol Cymru Gyfan

Mae Hunanasesiad Sicrhau Ansawdd Practisau Deintyddol Cymru Gyfan yn adnodd hunanasesu y mae gofyn i bractisau deintyddol sydd â chontractau'r GIG ei gwblhau a'i ddychwelyd bob blwyddyn er mwyn cydymffurfio â gofynion y contract. Mae rhywfaint o'r wybodaeth a roddwyd yn yr arolygon hunanasesu mwyaf diweddar yn cynnwys manylion am y sesiynau a ddarparwyd ac am swyddi gwag ymhlith y staff.

Mae'r dadansoddiad a wnaed yn cymharu'r atebion a roddwyd yn 2021 a 2022. Ar hyn o bryd, nid oes gwybodaeth am staff cofrestredig ac anghofrestredig ar gyfer y cyfnod cyn Covid, ond mae atebion 2021 yn cynnwys data am sesiynau cyn Covid.

Mae'r dadansoddiad wedi'i seilio bractisau sydd wedi cyflwyno atebion yn y ddwy flynedd yn unig, gan fod hynny'n fodd o gymharu'n gytbwys rhwng cyfnodau.


Gan mai'r practisau eu hunain sy'n rhoi'r atebion a hynny ar adeg benodol mewn amser, dylid cofio'r cyd-destun hwn wrth ddehongli'r data.

## Y rheini sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol)

Ar sail y practisau sy'n gwneud gwaith i'r GIG, roedd 38 (1%) yn llai wedi'u cofrestru yn 2022 nag yn 2021. Yn ardal Betsi Cadwaladr yr oedd y gostyngiad mwyaf, gyda 27 (3.7%) yn llai wedi cofrestru yn 2022 o'i gymharu â 2021. Cwm Taf Morgannwg oedd wedi gostwng fwyaf, sef 4.3%, yn 2022 o'i gymharu â 2021.

Ym Mae Abertawe yr oedd y cynnydd mwyaf gydag 16 (2.8%) yn fwy wedi cofrestru yn 2022 nag yn 2021.


*Ffigur 23 - Canran y rheini sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol) ac sy'n ymarfer, yn ôl ardal Bwrdd Iechyd, yn 2022 o'i chymharu â 2021*



# Nyrsys Deintyddol Cofrestredig

Yn y practisau sy'n gwneud gwaith i'r GIG, roedd 37 (2.2%) yn llai o Nyrsys Deintyddol wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn 2022. Yn ardal Betsi Cadwaladr yr oedd y gostyngiad mwyaf, sef 31 (8.6%) yn llai. Yn ardal Aneurin Bevan yr oedd y cynnydd mwyaf mewn Nyrsys Deintyddol a oedd wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn 2022, sef 25 (7.6%) yn fwy yn 2022.

*Ffigur 24 - canran y Nyrsys Deintyddol Cofrestredig yn ôl ardal Bwrdd Iechyd yn 2022 o'i chymharu â 2021*





# Aelodau o staff anghofrestredig

Yn y practisau sy'n gwneud gwaith i'r GIG, roedd mwy o staff nad oedd wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (e.e. staff derbynfa ac ati) yn 2022 nag yn 2021, gyda chynnydd cyffredinol o 48 (4.2%) yn fwy o staff.

Ym Mae Abertawe yr oedd y cynnydd mwyaf, sef 28 (16.6%) aelod o staff, ond bu gostyngiad yn Hywel Dda, gyda 14 (10.4%) yn llai o staff yn 2022 nag yn 2021.

*Ffigur 25 - canran yr aelodau o staff nad ydyn nhw wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (e.e. staff derbynfa ac ati) mewn practisau yn ôl ardal Bwrdd Iechyd yn 2022 o'i chymharu â 2021.*




# Y sesiynau a ddarperir bob wythnos

## Sesiynau deintyddion

Mae atebion yr hunanasesiad am y sesiynau sydd wedi’u darparu yn cynnwys y nifer cyn Covid. Yn gyffredinol, mae’r dadansoddiad yn dangos bod nifer y sesiynau yn 2022 fymryn dros 1% yn is na’r sesiynau a ddarparwyd cyn Covid. Fodd bynnag, darparodd rhai o’r practisau deintyddol yn ardaloedd y Byrddau Iechyd fwy o sesiynau yn 2022 nag a wnaethon nhw cyn Covid. Darparodd practisau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan 12.5% yn fwy o sesiynau yn 2022 nag a wnaethon nhw cyn Covid.

*Ffigur 26 - Y gwahaniaeth canrannol yn y sesiynau a ddarparwyd gan ddeintyddion yn 2022 o’u cymharu â’r sesiynau a ddarparwyd cyn Covid*





## Sesiynau gan therapyddion

Yn y practisau sy’n gwneud gwaith i’r GIG, mae nifer y sesiynau a ddarperir gan therapyddion wedi cynyddu yn 2022 o’u cymharu â’r sesiynau a ddarparwyd cyn Covid a’r sesiynau a ddarparwyd yn 2021.

Er mai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro y mae’r gwahaniaeth canrannol uchaf rhwng y cyfnod cyn Covid a 2022, drwyddi draw bu cynnydd yn ardal pob bwrdd iechyd yn nifer y sesiynau gan therapyddion yn 2022 o’u cymharu â’r nifer cyn Covid.

*Ffigur 27 - Y gwahaniaeth canrannol yn y sesiynau a ddarparwyd gan therapyddion yn 2022 o'u cymharu â'r sesiynau a ddarparwyd cyn Covid*





# Swyddi gwag

Ar sail y wybodaeth am y gweithlu yn hunanasesiad 2022, mae practisau deintyddol wedi dweud bod ganddyn nhw nifer o swyddi gwag mewn meysydd arbenigol. Nid yw hyn yn dangos faint o swyddi gwag sydd yn y practis ar gyfer pob arbenigedd, dim ond bod o leiaf un swydd wag yn bodoli.

## Deintyddion

Mae dros 30% o bractisau wedi dweud bod ganddyn nhw swyddi deintyddion gwag, ond heb ddatgan faint o'r rheini sydd yn y practis.


*Ffigur 28 - Canran y practisau sydd â swyddi deintyddion gwag*



# Therapyddion deintyddol

Yn y practisau sy'n gwneud gwaith i'r GIG, mae 12% o bractisau wedi dweud bod ganddyn nhw swyddi therapyddion deintyddol gwag. Ym Mhowys y mae nifer uchaf y practisau sydd â swyddi gwag (31.8%)


*Ffigur 29 – Canran y practisau sydd â swyddi therapyddion deintyddol gwag*




# Hylenyddion deintyddol

Yn y practisau sy'n gwneud gwaith i'r GIG, mae 9.5% o bractisau wedi dweud bod ganddyn nhw swyddi hylenyddion deintyddol gwag, gydag 16.9% o bractisau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dweud bod ganddyn nhw swyddi gwag.  Nid oes swyddi gwag ym mhractisau Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.


*Ffigur 30 - Canran y practisau sydd â swyddi hylenyddion deintyddol gwag*



# Nyrsys deintyddol

Yn y practisau sy'n gwneud gwaith i'r GIG, mae dros chwarter y practisau (25.7%) wedi dweud bod ganddyn nhw swyddi nyrsys deintyddol gwag.  Ni wnaeth 21 o bractisau ymateb i'r cwestiwn hwn.

*Ffigur 31 - Canran y practisau sydd â swyddi nyrsys deintyddol gwag*



# Cyfeiriadau

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, 2022. Registration Statistical Report, Llundain: Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2023. Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, s.l.: Llywodraeth Cymru.

NHS Digital, 2020. Dentists' Working Patterns. Motivation and Morale. [Ar-lein]
Ar gael yn: https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/dental-working-hours/2018-19-and-2019-20-working-patterns-motivation-and-morale/introduction
[Cyrchwyd 07 Rhagfyr 2023].

StatsCymru, 2023. Data gweithlu yn ôl rhif perfformiwr, grŵp oedran, math o gontract, rhyw y perfformiwr a math o ddeintydd. [Ar-lein]
Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Dental-Services/Current-Contract/nhsdentalworkforce-by-localhealthboard-agegroup-contracttype-gender-dentisttype-year
[Cyrchwyd 07 Rhagfyr 2023].

StatsCymru, 2022-23. Cleifion deintyddol newydd y GIG sy'n cael eu trin yn ôl bwrdd iechyd lleol a math o gleifion. [Ar-lein]
Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Dental-Services/Current-Contract/newnhspatientstreated-by-localhealthboard-patienttype
[Cyrchwyd 05 Rhagfyr 2023].

StatsCymru, 2022-23. Nifer y contractau a phractisau deintyddol yn ôl bwrdd iechyd lleol. [Ar-lein]
Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/General-Dental-Services/Current-Contract/dentalcontractsandpractices
[Cyrchwyd 01 Rhagfyr 2023].

Llywodraeth Cymru, 2020. NHS Dental Statistics in Wales, 2019-20. [Ar-lein] [Saesneg yn unig]
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-09/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2019-mawrth-2020-623.pdf
[Cyrchwyd 20 Medi 2023].

Llywodraeth Cymru, 2023. Gwasanaethau deintyddol GIG: Ebrill 2022 i Fawrth 2023. [Ar-lein]
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig-ebrill-2022-i-fawrth-2023-html?_gl=1*10d2162*_ga*MTE2MDI4MjQzMi4xNzEwMzIxODcx*_ga_L1471V4N02*MTcxMDkxNTE3Ni4yLjEuMTcxMDkxNTI0MC4wLjAuMA.
[Cyrchwyd 01 Rhagfyr 2023].